HEDDLU GWENT POLICE

# COOKING OIL THEFT

We are seeing an increase in the theft of and attempted theft of cooking oil within Gwent. Due to the energy crisis fuels and oils are being targeted. Cooking oil (and waste cooking oil) are stolen as they can be sold on to make biodiesel. Offenders often travel in transit style vans, where they can store large drums in the rear of the vehicle. Therefore we are advising businesses to keep used oil safely locked up in a storage area until your known oil collector can collect.

## SOME ADVICE TO HELP PREVENT THE THEFT OF COOKING OIL:

- Make sure oil levels are regularly checked
- Secure the drums together or to a solid structure with a chain and padlock
- Install; alarm system, automatic movement sensors, lockable fencing to screen tanks from view and CCTV, together with the required signage to cover the areas
- Ensure suitable dusk til dawn lighting is in place
- Apply a defensible topping or anti-climb paint above 2.4m together with the required signage to the top of the fencing or low level, easily accessible roofs
- Ask for and check identification if persons claim to be subcontractors attending your location to remove the oil
- Do not approach or confront a potential offender, if you suspect them, report it as soon as you can

Further information around securing your premises can be found at: **Keep burglars out of your business** and details of police approved Secured By Design products can be found at: **securedbydesign.com**.

If you suspect anyone or have any information about this crime type you can contact Gwent Police in complete confidence.

Os nad yw'n achos brys, rhowch wybod ar-lein

Ar-lein 101 DI-ARGYFWNG

999 ARGYFWNG

If it's not 999, report it online

Online 101 NON-EMERGENCY

999 EMERGENCY

WE DON'T BUY CRIME

Mae fersiwn Cymraeg ar gael hefyd.

2327_04A

# DWYN OLEW COGINIO

Rydyn ni'n gweld cynnydd yn yr achosion o ddwyn a cheisio dwyn olew coginio yng Ngwent. Oherwydd yr argyfwng ynni, mae tanwydd ac olew'n cael eu targedu. Mae olew coginio (ac olew coginio gwastraff) yn cael ei ddwyn gan fod modd ei werthu i greu biodiesel. Mae troseddwyr yn aml yn teithio mewn faniau, lle mae modd iddyn nhw storio drymiau mawr yng nghefn y cerbyd. Felly, rydyn ni'n cynghori busnesau i gadw olew wedi'i ddefnyddio'n ddiogel wedi'i gloi mewn storfa tan fod modd i'ch casglwr olew dibynadwy ei gasglu.

## CYNGOR I HELPU I ATAL OLEW COGINIO RHAG CAEL EI DDWYN:

- Gwnewch yn siŵr fod lefelau olew yn cael eu gwirio'n rheolaidd
- Clymwch y drymiau gyda'i gilydd neu wrth strwythur solet gyda chadwyn a chlo
- Gosodwch: system larwm, synwyryddion symudiad awtomatig, ffens â chlo i sgrinio tanciau o'r golwg a chamerâu teledu cylch cyfyng, ynghyd â'r arwyddion gofynnol ar hyd yr ardaloedd
- Sicrhewch fod goleuo addas o'r machlud tan y wawr ar waith
- Rhowch haen amddiffyn neu baent gwrth-ddringo uwch ben 2.4m, ynghyd â'r arwyddion gofynnol, at ben y ffens neu doeau isel hawdd eu cyrraedd
- Gofynnwch am gerdyn adnabod a'i wirio os bydd unigolyn yn honni eu bod nhw'n isgontractiwr yn dod i'ch lleoliad i fynd â'r olew
- Peidiwch â mynd at na gwrthdaro â throseddwr posib, os ydych chi'n eu hamau, riportiwch y digwyddiad cyn gynted â phosib

Mae rhagor o wybodaeth am ddiogelu eich lleoliad ar gael drwy: **Mae gwybodaeth i gadw lladron o'ch busnes** a manylion cynnyrch Diogelu Drwy Ddylunio sydd wedi'u cymeradwyo gan yr heddlu ar gael drwy: **securedbydesign.com**.

Os ydych chi'n amau rhywun neu os oes gennych chi unrhyw wybodaeth am y math hwn o drosedd, gallwch gysylltu â Heddlu Gwent yn gwbl gyfrinachol.

Os nad yw'n achos brys, rhowch wybod ar-lein | Ar-lein 101 DI-ARGYFWNG | 999 ARGYFWNG

If it's not 999, report it online | Online 101 NON-EMERGENCY | 999 EMERGENCY

WE DON'T BUY CRIME

Turn over for English.

2327_04A